W 2
2204
953
TJ688
UNIV. COLL. OF S. WALES & MON.
SALISBURY LIBRARY
(12)

# Can Gyhuddol;

YN DANGOS

# POEN YR ANNUWIOL,

WEDI YMADAEL A'R BYD HWN;

MEWN

## DULL O YMDDYDDAN

RHWNG YR

ENAID A GWAHANOL RANAU'R CORPH

(AR FESUR CAROL HAF)

---

RHUFEINIAID VI. 13.

*Ac na roddwch eich aelodau yn arfau anghyfiawnder i bechod: eithr rhoddwch eich hunain i Dduw, megys rhai o feirw yn fyw; a'ch aelodau yn arfau cyfiawnder i Dduw.*

---

ABERYSTWYTH:

ARGRAFFWYD GAN JAMES A WILLIAMS

1811.

[Pris Ceiniog.]

Heb blentyn nac etifedd, ond y fi (mawr fy anrhydedd!)

A

# CAN, &c.

GWRANDEWCH âr gywir ganiad,
A wnaed o ystori eurad,
Tra bu'r ymddyddaniad,
Rhwng corph ac enaid prudd,
Y corph oedd wedi restio,
Gân angeu dû a'i daro,
A'r enaid wrth ymado,
Yn wŷlo 'rhyd ei rydd.
Pan oedd y corph mewn iechyd,
Yn fywiog yn ei fywyd,
A'i olwg ar ei olud,
Yn cym'ryd llawn-fyd llon,
Nid oedd e' yn bwriadu,
Am farw na difaru,
Nes daeth yr ange i'w gyrchu:
A'i saethu dan ei fron.
*Gwyliwch a gweddïwch,*
*Cymmerwch edifeirwch,*
*Cofiwch, ceisiwch heddwch,*
*Cyn angeu tristwch trowch;*
*A byddwch bur a bywiol,*
*I gredu i'r Iesu grasol,*
*A rhodiwch lwybrau nefol,*
*O'r ffordd uffernol ffowch.*

Yr oedd y gŵr o'i ie'ngc tid
Ai fuchedd yn frycheulyd,
Yn prysio bydol broffid,
Yn fwy na golud ne',
Yn caru'r byd presennol,
Yn fwy na'r byd trag'wyddol,
Ai galon anedifeiriol,
Annuwiol y'mhob lle.
Ni cheisiodd gael trugâredd,
Gan Dduw na mendio ei fuchedd,
Na meddwl am ei ddiwedd,
Na dialedd Duw mewn pryd,
Nes daeth yr angeu'n ddiwyd,
Yn ddirgel i'w gyrhaeddyd,
Nid allodd byth mor symud,
Nes iddo newid byd.
*Gwyliwch a gweddïwch,*
*Cymmerwch edifeirwch, &c.*
Pan ddaeth yr angeu addug,
Hwn oedd swyddog sarug,
I daro'r galon ffysig,
Nid allodd meddyg mwy.
Na chynghor drud doctorion,
Er daued oedd eu moddion:
Am gyflog mawr na gwabron,
O'i galon g'weirio'r clwy'.
Y corphyn aeth yn brysur,
Mewn lludded mawr a llafur,
Yn synu yn ddisynwyr,
Heb gysur fel y pren;
A'r enaid bach yn gruddfan,
Yn achwyn ac yn ocha'n,

Heb blentyn nac etifedd, ond y fi (mawr fy anrhydedd!)

Am fod ei gastell cadarn,
Yn grillian uwch ei ben.
*Gwyliwch a gweddïwch,*
*Cymmerwch edifeirwch, &c.*

Yr enaid gwan dan grynu,
A wele wrth y trothwy.
Beryglon mawr o'i ddeutu,
I'w lyngcu cyn pen awr,
Ac uffern oddi dano,
Yn lledu ei safn am dano;
A'r gwaed-gŵn yno'n gwylio
Ei gael i'w lusgo i lawr.

Fe ddywedai'r enaid hynod,
Och! ŵr, p'le mae dy dafod
A fyddâi yn siarad gormod,
Yn barod bob yr awr?
A elli yru ymaith,
Wrth fygwth, nac wrth weniaeth,
Y gwaed-gŵn duon diffaith?
Bradwriaeth sy' mi'n fawr.
*Gwyliwch a gweddïwch,*
*Cymmerwch edifeirwch, &c.*

Yr enaid bach dan ŵylo,
A ddÿwedai wrth y dwylo,
Mi'ch gwelais chwi yn swagrio,
Yn riwlio cleddau mawr,
Edrychwch alloch godi,
I daro yn fy mharti,
Ni bu erioed reitach i mi,
Nac yn awr.

Y traed, a ellwch dreio,
Ar redeg fyn'd i rodio

I 'mofyn lle i'm safio?
'Rwyf heno'n huno'n gaeth;
Ac oni ddewch chwi'n fuan,
Ffarwel i'r byd yn gyfan;
'Rwy'n myn'd i ddwylo Satán,
I uffern fel y saeth.
*Gwyliwch a gweddïwch,*
*Cymmerwch edifeirwch, &c.*

Yr oedd y ddwy goes wisgi,
Ar ddeu-droed wedi rhewi,
Ni allen' mor unioni,
Na symud bys ar lawr;
A'i gorph i gyd yn crynu,
A'i galon wedi tòri,
A'i anadl yn terfynu,
A ffaelu 'roedd e'n awr.

Ar enaid anedwyddol,
A dd'wedodd mor dosturiol,
Wrth y corph annuwiol,
Gwych wrol oedd dy rym;
A weli'r gwaed-gŵn gwaedlyd,
Mewn bwriad i'm cyrhaeddyd,
A thithau sydd heb syflyd,
Yn fud heb ddywedyd dim.
*Gwyliwch a gweddïwch,*
*Cymmerwch edifeirwch, &c.*

Fe ddywedai wrth ei lyged,
Oedd yn ei ben cyn farwed,
Ydych chwi yn gweled,
Ymwared yn y byd?
Edrychwch draw o'ch deutu,
Am loches i mi lechu,

Heb blentyn nac etifedd, ond y fi (mawr fy aarhydedd!)

A

Mi glywa'r cŵn yn chwyrnu,
'Rwy'n crynu fel y cryd.
Y llygaid oedd yn pallu,
Yn ddeillion wedi t'wyllu;
Llinynau wedi tòri.
A'u tòrau i fynu yn troi;
Ni welent mo'r goleuni,
Oedd ger ei fron yn llosgi;
A phawb o'i ffryns yn synu,
Oddiwrth y gwely yn ffoi.
*Gwyliwch a gweddïwch,*
*Cymmerwch edifeirwch, &c.*
Yr enaid prudd a ddywedai,
O gorph! p'le mae dy glustiau,
A glywsoch sôn yn un lle,
Am gyfle goleu clir?
Pe gallwn gael fy nghadw,
Oddiwrth y rhai acw,
Sy'n edrych arnai'n chwerw,
A golwg salw sur.
Ei ddolur oedd mor ddwfwn,
A'i glustiau gwedi gostwng,
Ni chlywai floeddio miliwn,
Na sŵn can mil o glych;
Eisieu eu bod hwy'n gwrando,
Ar eiriau Duw, a'u cofio,
Pan oedd y gŵr heb glwyfo,
Yn gwisgo am dano'n wych.
*Gwyliwch a gweddïwch,*
*Cymmerwch edifeirwch, &c.*
Y parabl oedd yn ffaelu,
Ar geg-clwy' wedi codi,

Oedd yn ei geg yn chwyrnu,
Heb allu llyngcu'r llaeth:
A'r tafod oedd anwadal,
A ddywedai lawer dyfal,
Heb ddywedyd dim ond mwmial,
A'r anadl hithau'n gaeth.
Yr oedd ei ddwylo'n feirwon,
Yn gorwedd wrth ei ddwyfron,
Nid allent dynu'r poerion;
Oedd lybion wrth ei fin;
A'r breichiau a fydde'n brwysco,
Yn gyflym gyda'r dwylo,
Nid allen' mor ystyrio,
I geisio safio eu hun.
*Gwyliwch a gweddïwch,*
*Cymmerwch edifeirwch, &c.*
Yr enaid wrth ymadael,
A'r corph a ganai ffarwel,
Ac a waeddai'n uchel,
O! nifel brwnt wyt ti,
Ysgerbwd, bwyd y pryfed,
Di a'm rhoddaist dan law'r diawled,
I ddyoddau am dy weithred,
O! blin i'w nhynged i.
Felly'r corph a hunodd,
A'i ffryns ynghyd a'i claddodd,
Mewn bedd y bu nes pydrodd,
A'i gnawd a drodd yn bridd;
Ni ŵyr un dyn a aned,
Pwy gyflwr y mae'r enaid,
Yn dyoddeu dan law'r diawliaid;
Heb fyned byth yn rhydd.

Heb blentyn nac etifedd, ond y fi (mawr fy anrhydedd!)

*Gwyliwch a gweddiwch,*
*Cymmerwch edifeirwch, &c.*

Mae'r 'stori'n osodedig,
I'w gweled yn breintiedig,
Mewn llyfr da nodedig,
Llawedig yn y wlad,
A elwir with uniondeb,
Ymarfer â Duwioldeb,
A dŷnwyd mewn doethineb,
Ar undeb yn ddi-wad.

Un mîl, chwe'-chant, a saith flwydd,
Wyth dêg, od wy gyfarwydd, 1687.
Oedd union oed ein Harglwydd,
Ein llywydd pur, a'n pen,
Pan droed y 'stori euraid,
Ar gân i gael ei chlywaid;
Duw dod i'n ne'n agored,
A dyweded pawb, Amen.

*Gwyliwch a gweddïwch,*
*Cymmerwch edifeirwch,*
*Cofiwch, ceisiwch heddwch,*
*Cyn angeu tristwch trowch;*
*A byddwch bur a bywiol,*
*I gredu i'r Iesu grasol,*
*A rhodiwch lwybrau nefol,*
*O'r ffordd uffernol ffowch.*

DIWEDD.

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY